*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

**Coleg Caerdydd a'r Fro**

# Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr 2024/25

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad 3
2. Creu'r Diwylliant 3
3. Nodau 4
4. Deilliannau 5
5. Monitro ac Adrodd ar Effaith 5
6. Cyfleoedd Cyfranogiad Dysgwyr Ffurfiol 6
7. Datblygu Cyfranogiad Dysgwyr mewn Addysgu a Dysgu 13
8. Gwybodaeth Ategol 14
9. Gweithdrefn Gwyno 17

## 1. Cyflwyniad

Cenhadaeth y coleg yw "Darparu addysg a hyfforddiant o safon uchel, canlyniadau arbennig, pobl fedrus a chyflogadwy, profiad cwsmer rhagorol, twf busnes arloesol a buddsoddiad parhaus sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus ac economi lewyrchus" a'i werthoedd ydy "Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol." Credwn fod y rhain yn angenrheidiol i greu amgylchedd gwaith llwyddiannus a llawen lle all dysgwyr gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr hon yn gosod y camau y bydd y coleg yn eu cymryd i gynnal, cyfoethogi a meithrin cyfranogiad dysgwyr, er mwyn gwella effeithiolrwydd y coleg a'i ddarpariaeth.

Credwn fod datblygiad parhaus ein Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr yn gyfle i ymgorffori dinasyddiaeth go iawn, codi safonau a gwella'r dysgu drwy:

- ddarparu adborth o bersbectif y dysgwyr a fydd yn cryfhau sicrhau ansawdd a phroses werthuso;

- modelu'r ymddygiad ac agweddau sydd o fewn ein gwerthoedd craidd, sef Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol; ac yn cynorthwyo i ddatblygu pobl rugl, wybodus a myfyriol, sy'n gallu trafod a gwerthuso eu profiad dysgu'n feirniadol.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr hon yn cynnwys pob gwasanaeth yn y coleg. Nid dim ond strwythurau cynrychioli myfyrwyr ydyw, a bydd yn ceisio cynnwys dysgwyr i ddarparu adborth ynghylch pob agwedd ar y coleg.

Bydd y strategaeth yn cynnwys holl fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro: Myfyrwyr Addysg Bellach llawn amser a rhan amser a'r rhai ar raglenni 14-16. Bydd y Coleg hefyd yn hyrwyddo elfennau angenrheidiol o'r Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr i reolwyr dysgwyr seiliedig ar waith, myfyrwyr ar gyrsiau masnach, dysgwyr o'r Gymuned Oedolion, dysgwyr Addysg uwch yn ogystal â dysgwyr ar gyrsiau breiniol dan ymbarél y Coleg.

## 2. Creu'r Diwylliant

Mae pwysigrwydd hanfodol cyfranogiad dysgwyr fel elfen allweddol o strategaeth y coleg yn cael ei adlewyrchu yn y pwyslais a roir iddo gan uwch reolwyr. Yr Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am y broses cyfranogiad dysgwyr yw Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr, Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu. Bydd rheoli gweithredol yn nwylo Dirprwy

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr, Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu a Chydlynydd Cynhwysedd a Llais y Dysgwr.

Wrth i ddiwylliant cyfranogiad y dysgwyr ddatblygu, mae'r Coleg yn cydnabod y bydd perthnasoedd rhwng darlithwyr a dysgwyr yn newid wrth i ni symud tuag at bartneriaeth fwy dilys.

Bydd staff a dysgwyr angen cymorth a hyfforddiant i hwyluso'r newid hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn gwella'r profiad dysgu cyffredinol a deilliannau dysgwyr. Bydd angen i ni ystyried effaith y newidiadau hyn ar rieni/gwarcheidwaid, gweithwyr a darparwyr profiad gwaith hefyd a'u rôl yn y broses ddysgu.

Bydd y coleg a'r dysgwyr yn cydweithio i:

- wneud cyfranogiad dysgwyr yn eitem sefydlog amlwg ar agendâu cyfarfodydd y coleg;

- gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r strategaeth cyfranogiad hon a sut y gallent gyfrannu i'w llwyddiant;

- darparu hyfforddiant priodol i staff/myfyrwyr o ran annog cyfranogiad dysgwyr ac ymateb i fwy o gyfranogiad dysgwyr.

## 3. Nodau

Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd y Coleg yn cynorthwyo a datblygu 'Llais y Dysgwr' ymhellach. Bydd yn ysgogi a hwyluso craffu myfyrwyr o drefniadau cyfranogiad sy'n bodoli eisoes ac yn cynnwys myfyrwyr yn weithredol mewn datblygu mecanweithiau newydd.

Wrth gynnwys myfyrwyr, bydd y Coleg yn gallu casglu barn dysgwyr am eu profiadau presennol neu faterion sy'n codi a gweithredu'n syth. Pan nad yw hyn yn bosib, mae yna gyfle i ddarparu adborth. Mae'r adborth hwn am eu profiadau dysgu yn gyfraniad pwysig i alluogi'r Coleg i fodloni anghenion dysgwyr mewn modd effeithiol a phrydlon.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- roi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd y Coleg;

- cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan;

- rhoi'r cymorth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan;
- ysbrydoli dysgwyr i gymryd rhan;
- adnabod a bodloni anghenion grwpiau o ddysgwyr sydd ddim yn cymryd llawer o ran ar hyn o bryd;
- sicrhau bod gan staff a rheolwyr y sgiliau, cymorth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gael myfyrwyr i gymryd rhan.

## 4. Deilliannau

Deilliant y strategaeth i ddysgwyr yw cymryd rhan yn rheolaeth y Coleg, gan eu galluogi i gael effaith ar ansawdd y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ogystal â datblygu eu sgiliau personol.

I'r Coleg, mae'r manteision yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth bod ei weithredu a'i hunanasesiad wedi eu llywio gan farn y dysgwyr.

## 5. Monitro ac Adrodd ar Effaith

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i haddasu'n flynyddol fel rhan o broses hunanasesu'r coleg. Mae Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn fannau cyfeirio allweddol a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr adolygiad a'r gwerthusiad hwn.

Wrth asesu effaith y strategaeth hon, bydd y coleg yn:

- darparu tystiolaeth i ddangos bod barn dysgwyr yn cael eu cymryd o ddifrif a'u bod wedi ysgogi gwelliannau;
- cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Dysgwyr;
- casglu graddfeydd bodlonrwydd cynrychiolwyr dysgwyr mewn perthynas â'r effaith a gaiff eu rolau;
- ceisio arddangos sut all y broses hunanasesu a gwella perfformiad gysylltu'n uniongyrchol â barn y dysgwyr a ddogfennwyd;
- galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn hunan werthuso'r strategaeth.
- adolygu effaith Llais y Dysgwr mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr.

## 6. Cyfleoedd Cyfranogiad Dysgwyr Ffurfiol

### a. Cynrychiolwyr Cwrs

Bydd gan bob tîm cwrs gynrychiolwyr dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm, gan ddod â phersbectif dysgwyr ynghylch eu profiad dysgu. Gall cynrychiolwyr cwrs ddarparu sianel bwysig o gyfathrebu drwy adrodd wrth staff y coleg am brofiadau cadarnhaol a mynegi pryderon cyd-ddysgwyr fel bod modd gweithredu arnynt.

- Bydd gofyn i Diwtoriaid cwrs gynnal Etholiad Cynrychiolwyr Cwrs yn ystod y tiwtorial Llais y Dysgwr a fydd yn cael ei lansio yn ystod yr Wythnos Diwtorial gyntaf: **Wythnos Llais y Dysgwr.** Dylai cyfadrannau godi ffurflen Cynrychiolydd Cwrs Bugeiliol i anfon enwau a chyfeiriadu e-bost y cynrychiolwyr at Gydlynydd Llais y Dysgwr. Bydd hyn yn caniatáu cyfathrebu uniongyrchol â'r cynrychiolwyr drwy'r e-bost myfyriwr.

- Bydd sesiynau hyfforddi ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs ar gael ar-lein, i'w cwblhau cyn gynted ag y bo modd wedi hanner tymor ac yna bydd sesiynau cymorth ar gael wedyn ar gyfer unrhyw gwestiynau. Bydd gan Gynrychiolwyr Cwrs yr hawl i lawlyfr adnoddau i'w cynorthwyo yn eu rôl.

- Mae tudalen Cynrychiolwyr Cwrs penodol ar gael ar dudalen TEAMS Undeb y Myfyrwyr, lle all myfyrwyr gyrchu gwybodaeth i'w cynorthwyo yn eu rôl fel cynrychiolydd cwrs, neu gael gwybodaeth ynghylch digwyddiadau sydd ar y gweill.

- Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliad ar sawl campws a fydd yn galluogi i fyfyrwyr o bob campws gael y cyfle i gyfarfod (os bydd amgylchiadau yn caniatáu).

- Bydd modd i gynrychiolwyr cwrs ymuno â sesiynau cymorth o bell drwy TEAMS a bydd angen bod wedi llenwi'r holiadur ar ddiwedd eu hyfforddiant i gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

- Bwriedir defnyddio Swyddogion Sabothol, myfyrwyr gweithredol ac Arweinydd Llais y Dysgwr ac Undeb y Myfyrwyr i gynnal sesiynau cymorth.

- Bydd hi'n ofynnol i Gynrychiolwyr Cwrs gadeirio cyfarfodydd gyda chyfoedion cwrs yn fuan ym mis Tachwedd ac ar ddiwedd mis Mawrth. Byddant yn mynychu cyfarfod cwrs cyn diwedd tymor yr hydref a'r gwanwyn yn y drefn hon. Bydd y dyddiadau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn cael eu nodi yng nghalendr Undeb y Myfyrwyr ar TEAMS.

## b. Grwpiau Ffocws Thematig Cynrychiolwyr Cwrs

- Bydd Grwpiau Ffocws Thematig Cynrychioli Cwrs yn cael eu cynnal ar-lein drwy TEAMS yn seiliedig ar Thema Allweddol fel bo'n briodol i bob cylch ansawdd, gweithgareddau coleg ac adborth dysgwyr.

- Bydd set gyffredin o gwestiynau ar gael ac yn cael eu rhannu i'r Cynrychiolwyr Cwrs drwy FORMS i'w cwblhau ymlaen llaw fel y gallant drafod â'u cyfoedion a dod ag ymatebion parod i'r cyfarfod grŵp ffocws thematig.

- Mi fydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Swyddogion Sabothol ac yn cael ei hwyluso gan yr Arweinydd Llais y Dysgwr ac Undeb y Myfyrwyr.

- Bydd y cyfarfod yn gyfle i roi adborth ac i archwilio materion sy'n effeithio ar y coleg yn gyffredinol. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd materion ar draws y coleg yn cael eu hamlygu a'u trafod.

- Bydd materion allweddol yn cael eu cyfeirio at y rheolwr coleg priodol (e.e. gwasanaethau myfyrwyr, ystadau, Gwasanaethau TG, ansawdd).

- Bydd y Cynrychiolwyr Cwrs a'r myfyrwyr gweithredol yn cael eu hysbysu am unrhyw ddatblygiadau perthnasol gan gadeirydd y cyfarfod, ac yn derbyn adborth ym mhob cyfarfod hanner tymor. Bydd adborth yn cael ei anfon at Gynrychiolwyr Cwrs drwy negeseuon e-bost a'r dudalen TEAMs. Mae'n 'rhaid' i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo i gyd-fyfyrwyr.

## c. Cynhadledd Myfyrwyr

- Cynhelir unwaith y flwyddyn yn ystod tymor y gwanwyn. Bydd yn ddigwyddiad ar y cyd rhwng y Coleg ac Undeb y Myfyrwyr.

- Bydd pob dysgwr sy'n rhan o'r broses Llais y Dysgwr yn cael gwahoddiad. Bydd myfyrwyr o bob adran yn cael eu henwebu gan eu tiwtoriaid i fynychu'r gynhadledd.

- Bydd y pennaeth yn rhoi adborth ar faterion allweddol y flwyddyn a'r gweithredu a ddigwyddodd a hefyd yr hyn mae'r dysgwyr yn ystyried sy'n dda ynghylch Coleg Caerdydd a'r Fro.

## d. Pwyllgorau Traws-Goleg

- Bydd cynrychiolwyr dysgwyr yn rhan o bwyllgorau traws-goleg sy'n rhan o swyddogaethau megis cydraddoldeb ac amrywiaeth, Diogelu, bwrdd Academaidd Addysg Uwch a grŵp profiad myfyrwyr.

- Bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu hysbysebu drwy negeseuon e-bost i Gynrychiolwyr Cwrs, tudalen TEAMS Llais y Dysgwr, rhestr bostio Llais y Dysgwr, y Swyddogion Sabothol a thrwy'r tiwtoriaid cwrs a chydlynwyr cwrs.

- Bydd y cynrychiolwyr yn cael y cyfle i drafod materion mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y corff myfyrwyr, drwy'r broses cynrychiolwyr dysgwyr.

- Nodir dyddiadau'r cyfarfodydd pwyllgor traws-goleg yng nghalendr Llais y Dysgwr.

- Bydd cyfle i Gynrychiolwyr Cwrs fynychu o bell drwy TEAMs pan fo'n bosib neu fe all myfyriwr arall fynychu ar eu rhan.

## e. Awgrymiadau Dysgwyr Parhaus

- Caiff dysgwyr gyfle i roi adborth drwy gydol y flwyddyn drwy stondinau dros dro rheolaidd, drwy e-bost i LVIC/swyddogion, criw myfyrwyr neu SAB, drwy ddolenni ar y Porth Myfyrwyr a thrwy godau QR ar bosteri o amgylch y campws.

## f. Grwpiau Ffocws Thematig Dysgwyr

- Bydd gwahoddiad i Gynrychiolwyr Cwrs fynychu grwpiau ffocws thematig drwy gydol y flwyddyn mewn ymateb i adborth dysgwyr lle bo'n ofynnol a bydd cyfle i fynychu o bell drwy TEAMs neu fe all myfyriwr arall fynychu ar eu rhan.

## g. Holiaduron 'Thematig' Ar-lein

- Cynhelir arolygon 'thematig' ar-lein ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd rhai o'r rhain yn adwaith i faterion perthnasol wrth iddynt godi (themau posib - cyfleoedd cyfartal, cyllid a diogelu).

## h. Arolygon Cipolwg

- Cynhelir arolygon cipolwg ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd rhai o'r rhain yn cael eu gosod cyn y flwyddyn academaidd a rhai yn ymateb i faterion perthnasol wrth iddynt godi.

## i. Myfyrwyr Lywodraethwyr

- Bydd dau Swyddog Sabothol yn y swydd Myfyrwyr Lywodraethwyr.

- Cytunir bod y rôl hon yn rhan o rôl y swyddog SAB, fodd bynnag, oriau gwirfoddol ydynt ac ni fyddant yn rhan o oriau â thâl SAB. Mewn achosion lle na all swyddog SAB wneud hyn yn ogystal â'i rôl SAB byddwn yn hysbysebu ac yn ethol Myfyrwyr Lywodraethwyr o gorff y myfyrwyr.

- Bydd dau fyfyriwr yn rhan o Fwrdd Corfforaethol y Coleg. Bydd y myfyrwyr hyn yn mynychu prif gyfarfodydd y Bwrdd Corfforaethol ac maent yn gymwys i fynychu nifer o is-bwyllgorau.

- Bydd y Coleg yn sicrhau bod y casgliad o Fyfyrwyr Lywodraethwyr mor deg a democrataidd â phosib.

- Bydd hysbysebion am Fyfyrwyr Lywodraethwyr yn cael eu postio ar y Porth Coleg, drwy negeseuon naid, ar Moodle a thrwy negeseuon e-bost at gynrychiolwyr cwrs. Nodir dyddiadau'r gweithgaredd hwn yng nghalendr Llais y Dysgwr.

- Bydd myfyrwyr sy'n dangos diddordeb yn derbyn cyfrifoldebau'r Bwrdd Corfforaethol, trosolwg o'r rôl wedi ei ysgrifennu gan Fyfyriwr Lywodraethwr blaenorol a ffurflen gais a thempled maniffesto.

- Ar ôl derbyn ceisiadau byddwn yn gofyn am eirda gan Diwtoriaid Cwrs a fydd yn cael eu defnyddio yn y broses llunio rhestr fer. Bydd gofyn i fyfyrwyr llwyddiannus ysgrifennu maniffesto gyda chymorth gan Gydlynydd/swyddog Llais y Dysgwr.

- Hysbysebir ymgyrch etholiad i gorff y myfyrwyr, a fydd yn cael eu cyfarwyddo i ddarllen maniffesto'r ymgeiswyr a fydd yn cael eu postio ar dudalen TEAMS Undeb y Myfyrwyr.

- Cynhelir pleidlais electroneg dros gyfnod penodedig. Nodir hyn yng nghalendr Llais y Dysgwr.

- Yn dilyn canlyniad y bleidlais, bydd y ddau ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

- Bwriedir i Fyfyrwyr Lywodraethwr fynychu'r cyfarfod Bwrdd Corfforaethol cyntaf yn Nhymor yr Hydref, yn ddibynnol ar wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

- Bydd y coleg yn darparu hyfforddiant a chymorth yn eu rôl i Lywodraethwyr newydd.

- Bydd hyn yn cynnwys sefydlu a chymorth arall megis cyfarfodydd paratoi ac adrodd yn ôl. Bydd hyfforddiant Myfyrwyr Lywodraethwyr yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaeth i fynychu cyfarfodydd Corff llywodraethol yn rheolaidd.

## j. Swyddogion Sabothol

- Bydd pedwar Swyddog Sabothol yn cael eu hethol i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol: I weithio ar bob campws ar draws Coleg Caerdydd a'r Fro.

- Bydd y Swyddogion Sabothol yn gyfrifol am ymgysylltu â chynifer o ddysgwyr â phosib o fewn ffocws penodol yn eu maes.

## k Cyfarfodydd Penaethiaid Adran

- Bydd un cyfarfod ar gychwyn y flwyddyn lle bydd pob pennaeth Adran yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr cwrs yn eu maes i dderbyn adborth, mae'r manylion ar Galendr Llais y Dysgwr.

## l. Cyfarfodydd y Pennaeth

- Bydd un cyfarfod yn ystod Tymor y Gwanwyn lle bydd y Pennaeth yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr cwrs i dderbyn adborth, mae'r manylion ar Galendr Llais y Dysgwr.

## m. Arolygon Llais y Dysgwr

- Bydd arolwg un yn cael ei gyhoeddi ar-lein i ddysgwyr cyn hanner tymor y tymor cyntaf o'r flwyddyn academaidd. Mae wedi'i ddylunio i gasglu gwybodaeth am brofiadau dysgwyr y Coleg o wneud cais i ymrestru a sefydlu a hefyd i gael eu hargraffiadau cyntaf o fywyd yn y coleg. Bydd arolwg dau yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn ystod mis Chwefror. Mae'r arolwg wedi ei ddylunio i gael barn y dysgwyr ar addysgu a dysgu,

sgiliau hanfodol, asesu, trefniant cyrsiau, llety ac offer, gwasanaethau cymorth, gwasanaethau cyfoethogi, profiad gwaith, cyfleusterau a gwasanaethau traws-goleg cyffredinol a sicrhau ansawdd. Bydd arolwg tri yn cael ei gyhoeddi ar-lein i ddysgwyr i gael eu barn ar addysgu a dysgu, sgiliau hanfodol, asesu, trefniant cyrsiau, llety ac offer, gwasanaethau cymorth, gwasanaethau cyfoethogi, profiad gwaith, cyfleusterau a gwasanaethau traws-goleg cyffredinol, sicrhau ansawdd, cyrchfannau ar ôl cwblhau'r cwrs, effaith llais y dysgwr. Bydd hyn yn ein galluogi i gymharu'r flwyddyn a gweld a yw gwelliannau wedi eu gwneud mewn ymateb i adborth dysgwyr.

- Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi o fewn yr adran Ansawdd a hefyd gan Gyfadrannau. Rhennir a thrafodir arfer dda mewn gwahanol fforymau er mwyn sicrhau, lle bo'n briodol, ei fod yn cael ei fabwysiadu ar draws y Coleg. Targedir meysydd sydd angen gwella gan y Pennaeth Safonau Academaidd a Phroffesiynol, a/neu reolwyr priodol eraill.

- Mae'r tri arolwg yn cael eu dadansoddi'n allanol hefyd, mae hyn yn galluogi'r coleg i feincnodi ei berfformiad ar draws y sector yng Nghymru a Lloegr.

- Cynhelir yr arolwg Dysgu'n Seiliedig ar Waith yn ystod tymor y gwanwyn.

- Cynhelir yr arolwg Blwyddyn 1 Addysg Uwch yn ystod tymor y gwanwyn.

- Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn Arolwg Addysg Uwch annibynnol sy'n cael ei gwblhau'n flynyddol drwy sefydliad allanol gyda chymorth gan CAVC.

## n. **Undeb y Myfyrwyr**

- Bydd yna Undeb y Myfyrwyr gweithredol yn y Coleg gyda'i gyllideb a ddynodwyd.

- Bydd yna Undeb y Myfyrwyr gweithredol ar bob prif gampws a fydd yn cwrdd yn rheolaidd.

- Mae pob dysgwr sydd wedi ymrestru yn gymwys i ddod yn aelodau o'r Undeb Myfyrwyr. Mae'n sefydliad hunan-lywodraethol o ddysgwyr gyda'i Gyfansoddiad ei hun, sydd â swyddogaeth i gynrychioli diddordebau dysgwyr a gall weithredu i fynegi eu barn a'u pryderon yn gydlynol. Mae Deddf Addysg 1994 yn gosod rhwymedigaeth ar Gorff Llywodraethol y

coleg i gydnabod rôl gynrychiadol Undeb y Myfyrwyr mewn materion academaidd, disgyblaethol a materion eraill yn ymwneud â llywodraethu llywodraeth y coleg.

- Mae'n hanfodol sicrhau bod adnoddau priodol a strwythurau cymorth ar waith ar bob prif gampws i atgyfnerthu rôl aelodau gweithredol Undeb y Myfyrwyr, drwy ddarparu swyddfa, hyfforddiant a'u galluogi i gyfathrebu'n effeithiol gydag aelodau.

- Bydd Llywydd newydd y Myfyrwyr yn cynorthwyo i gynnal Undeb y Myfyrwyr o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth gan yr Is-lywydd, swyddogion yr undeb, a swyddogion sabothol eraill.

## o. Dysgwyr Anodd eu Cyrraedd

- Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses Llais y Dysgwr. Dysgwyr anodd eu cyrraedd yw rhai;

    - Rhan amser
    - Seiliedig ar waith
    - Dysgu o Bell
    - Dysgu Oedolion yn y Gymuned
    - 14-16
    - ESOL
    - Lefel Mynediad 1
    - Prentisiaid Iau

- Bydd cyfarfodydd priodol yn cael eu cynnal gyda staff allweddol i sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau Llais y Dysgwr yn hygyrch i'r holl ddysgwyr.

- Bydd Swyddogion Sabothol, Criw Myfyrwyr a Swyddogion Gweithredol Undeb y Myfyrwyr yn gweithio i gyrraedd dysgwyr o fewn y meysydd hyn.

## p. Ymwneud â Gwneud Penderfyniadau Sefydliadau Allanol

- Bydd CAVC yn gweithio'n agos â Chyngor Ieuenctid Caerdydd a Fforwm Ieuenctid y Fro drwy swyddogion SAB.

- o Bydd CAVC yn gweithio'n agos ag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, a'r DU, yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr mewn cynhadleddau a digwyddiadau hyfforddiant allanol.

## 7. Datblygu Cyfranogiad Dysgwyr mewn Addysgu a Dysgu - oes unrhyw beth wedi newid yma?

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a chaffael gwybodaeth a sgiliau sy'n eu paratoi at waith, bywyd a hunan-gyflawniad. Rydym yn credu y dylai'r profiad dysgu gael ei "berchnogi" gan bob dysgwr, waeth pa Gyfadran mae'n astudio ynddi neu ar ba lefel mae'n astudio arni. Mae creu teimlad dilys o berchnogaeth ymhlith dysgwyr yn hanfodol i lwyddiant Strategaeth Cyfranogiad Dysgwyr.

Er mwyn hwyluso perchnogaeth dysgwyr o'r broses ddysgu, byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant i staff darlithio yn seiliedig ar y canlynol:

- strategaethau dysgu gweithredol;
- datblygu Arferion y Meddwl ar gyfer dysgu llwyddiannus;
- cynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau asesu ffurfiannol megis hunanasesu ac asesu cyfoedion;
- defnydd rhyngweithiol ac arloesol o Dechnoleg Gwybodaeth Dysgu i gynorthwyo datblygiad dysgwyr;
- datblygu strategaethau i hyrwyddo sgiliau dysgu annibynnol a rhyngddibynnol;

Yn ogystal, dylai bod cynrychiolwyr dysgwyr mewn cyfarfodydd tîm cwrs yn hwyluso deialog wedi ei llywio ar strategaethau dysgu ac addysgu a'u pwysigrwydd o ran hyrwyddo cyfrifoldebau myfyrwyr dros eu dysg eu hunain a dysg eu cyfoedion.

Lle na all Cynrychiolwyr Cwrs fynychu oherwydd prinder amser dylent gael y cyfle i gyflwyno unrhyw bryderon cyn cyfarfodydd staff, a chael nodiadau o'r cyfarfod yn dilyn cyfarfodydd staff ac adborth YSWD ar eu mewnbwn.

## 8. Gwybodaeth Ategol

### a. Brandio Llais y Dysgwr

Defnyddir logo Undeb y Myfyrwyr ar bob gohebiaeth.

### b. Calendr Llais y Dysgwr

Bydd y calendr yn cynnwys yr holl ddyddiadau allweddol ar gyfer digwyddiadau Llais y Dysgwr a bydd ar gael i bob Cyfadran a meysydd cymorth allweddol cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

### c. Calendr Amrywiaeth

Bydd y calendr Amrywiaeth yn cynnwys yr holl ddyddiadau allweddol ar gyfer y flwyddyn academaidd a bydd ar gael i bob Cyfadran a meysydd cymorth allweddol cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

### d. Rhaglen Diwtorial

Bydd y rhaglen diwtorial Llais y Dysgwr yn cael ei lansio yn yr e-diwtorial cyntaf: Wythnos Llais y Dysgwr ym mis Medi i godi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr. Mae'r rhaglen hon yn amlygu dulliau o sicrhau y clywir llais y dysgwr, sut mae'r coleg yn adrodd yn ôl i ddysgwyr, ac yn enwedig rôl y cynrychiolwyr cwrs, a pharatoi dysgwyr ar gyfer eu hetholiad.

### e. Gwobrau i Gynrychiolwyr Dysgwyr

Bydd pob dysgwr yn cael ei gydnabod am ei ymrwymiad ac am ymwneud â'r broses Llais y Dysgwr;

- Bydd Gwobrau Llais y Dysgwr a roddir gan y Pennaeth neu aelod gweithredol, yn cydnabod cynrychiolwyr rhagweithiol a fydd yn cael eu cyflwyno â thystysgrifau'n cadarnhau eu hymwneud ac yn nodi'r sgiliau a enillwyd yn ystod y broses.
- Mae cynllun cymhelliant cynrychiolwyr cwrs ar gael ac mae hyfforddiant llawn ar hyn ar gael o fewn yr hyfforddiant cynrychiolwyr cwrs ar-lein.

- Bydd yr holl gynrychiolwyr cwrs sy'n cwblhau'r hyfforddiant ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol eraill yn derbyn pwyntiau i gydnabod yr hyfforddiant a gymerwyd a'r oriau a wirfoddolwyd.

- Mae'n rhaid i Gynrychiolwyr Cwrs gofnodi eu holl weithgarwch Llais y Dysgwr yn electronig drwy'r 'Ffurflen Gweithgaredd' sy'n cael ei gwirio a'i hadrodd gan Gydlynydd Llais y Dysgwr yn rheolaidd (eglurir hyn yn ystod yr hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs).

## f. **Ystyriaethau Monitro Ansawdd**

Mae'r canlynol yn ystyriaethau monitro pwysig yn ymwneud â gweithredu'r broses cyfranogiad dysgwyr:

- Darparu'r rhaglen diwtorial Llais y Dysgwr;

- Cynrychiolwyr i gyfarfod gyda chyfoedion cwrs o leiaf unwaith bob tymor;

- Cynrychiolwyr yn mynychu neu ddarparu gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd cwrs;

- Adborth Tiwtoriaid Cwrs i Gynrychiolwyr Cwrs ynghylch materion a godwyd a chyfleu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau Llais y Dysgwr.

- Sut mae llais y Dysgwr yn cael effaith ar fyfyrwyr CAVC.

## g. **Cyfathrebu â Dysgwyr**

- Defnyddir TEAMS, negeseuon e-bost, sgriniau teledu, Pyrth, ap CAVC, ar lafar gwlad a phosteri ar gyfer gwybodaeth gyffredinol Llais y Dysgwr, ar gyfer hysbysebu pwyllgorau traws-goleg/swyddi Myfyrwyr Lywodraethwyr, i hyrwyddo etholiadau Myfyrwyr Lywodraethwyr, gwybodaeth Cynrychiolwyr Cwrs ac adborth 'Dywedoch chi - Gwnaethom Ni'.

- Tudalen Llais y Dysgwr dynodedig ar y Porth, ap CAVC a TEAMS.

- Bydd gwybodaeth allweddol yn cael ei hanfon drwy e-bost at y Cynrychiolwyr Cwrs.

- Bydd sgriniau plasma yn y cynteddau ar gampysau yn cynnwys gwybodaeth Llais y Dysgwr.

- Cyfathrebiadau drwy diwtoriaid cwrs, Cylchlythyrau penaethiaid Adran a gwybodaeth allweddol yn cael ei throsglwyddo drwy staff Llais y dysgwr ACT a QSA a chydlynwyr cwrs (ar gyfer dysgwyr seiliedig ar waith).

- Adran Diweddaru Llais y Dysgwr ar TEAMS sy'n cynnwys adran 'Dywedoch chi - Gwnaethom Ni', Blogiau Swyddog Sabothol a chofnodion o gyfarfodydd allweddol.

- Bydd Ffair y Glas ym mis Medi yn cynnwys stondin Llais y Dysgwr ac Undeb y Myfyrwyr.

## h. Cyfathrebu gyda Staff

- Bydd diweddariadau Tiwtor Cwrs ynghylch ymgysylltiad dysgwyr yn cael eu hanfon drwy e-bost at Benaethiaid Adran i'w rhannu gyda staff.

- Cyfathrebu drwy Limelight.

- Cynhelir sesiynau datblygu lle bo'n angenrheidiol i sicrhau bod diweddariadau pwysig yn cael eu trosglwyddo.

## i. Cymorth i Ddysgwyr mewn Cyfarfodydd

- Bydd y coleg ac Undeb y Myfyrwyr yn cynorthwyo dysgwyr fel eu bod yn gallu cymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd. Bydd hyn yn cynnwys gwirio bod cymorth dysgu ar gael i'r rhai sy'n cael trafferth cymryd rhan mewn cyfarfodydd oherwydd anabledd.

- Bydd y coleg hefyd yn talu gofal plant a chostau teithio os yw'n briodol. Ni fydd dysgwyr yn colli unrhyw daliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg pe baent yn cael eu hethol i fynychu cyfarfodydd. Ni ddylai unrhyw fyfyriwr golli arian am gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad dysgwyr.

- Bydd dysgwyr yn derbyn cymorth mewn cyfarfodydd penaethiaid Adran a'r Pennaeth gan y Cydlynydd llais y Dysgwr a'r Swyddogion Sabothol.

## 9. Y Weithdrefn Gwyno

- Bydd barn y dysgwyr yn ymddangos drwy'r weithdrefn gwyno, a thrwy sgyrsiau anffurfiol gyda thiwtoriaid. Mae gan y Coleg weithdrefnau ffurfiol ar waith i ddelio'n effeithiol gyda chwynion dysgwyr. Ar adegau bydd natur rhai cwynion yn hysbysu am yr angen i wella system neu weithdrefn y coleg. Gall Cydlynydd Llais y Dysgwr gynorthwyo gyda rheoli'r broses hon.

- Gall Cydlynydd Llais y Dysgwr weithredu, pe bai'n ofynnol, fel capasiti cynghori i gynorthwyo dysgwyr i wneud cwynion.

- Yn ogystal, gall Undeb y Myfyrwyr chwarae rhan allweddol fel ymgynghorwyr ac eiriolwyr i gynorthwyo dysgwyr i wneud cwynion.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo: Mehefin 2024 | Rheolwr sy'n Gyfrifol: Cydlynydd Cynhwysiant a Chyfranogiad Dysgwyr |
| Cymeradwywyd gan: CQSA | Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu |
| Dyddiad adolygu: Mehefin 2025 | Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy |